



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

GIS

Fu pethau erioed mor dda! - Sut i greu, adeiladu a defnyddio amgylchedd GIS gan ddefnyddio GIS ffynhonnell agored a data agored

Jon Dollery, Mapping Officer, [Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru](#)

GIS: Fu pethau erioed mor dda... O ddifrif. Mae GIS yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn y byd digidol ac mae pobl yn dod yn fwy cyfarwydd ag egwyddorion GIS wrth ddefnyddio offer megis mapiau Google a Google Earth. Erbyn hyn mae sawl set ddata agored, rhai fectorgraffig a rhai cartograffig, ar gael i chi eu defnyddio, yn ogystal â meddalwedd GIS ffynhonnell agored rad ac am ddim ar gyfer delweddu a holi'r data hyn. Mae cymaint o bethau allan yn y fanno ar hyn o bryd, ac felly'n mae'n hawdd iawn i chi greu eich gweithleoedd GIS eich hun.

Ydych chi eisiau gallu gwneud hyn? Wel dewch i ddau weithdy 40-munud Jon Dollery o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a dysgwch sut i fod yn giamster GIS. Yn newydd i GIS? Dim problem - bydd y sesiwn gyntaf yn ymdrin â holl hanfodion QGIS: ble i ddod o hyd i setiau data a'u mewnfario a sut i greu eich data eich hun. Byddwch yn cael cyngor ar sut i ddod o hyd i'r rhai gorau. Eisiau gweld beth arall y gall QGIS ei wneud? Yn yr ail sesiwn, byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o ddelweddu data drwy edrych ar sut y gall QGIS a phlatfformau ffynhonnell agored eraill ddefnyddio data gofodol 3D megis LiDAR.



[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Oherwydd cyfyngiadau'r lleoliad, 12 o bobl ar y mwyaf fydd yn gallu mynychu'r gweithdai hyn, felly cofrestrwch yn gynnar.

Bywgraffiad

Daeth Jon yn aelod o staff Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn 2013. Graddiodd o Brifysgol Cymru, Llambled yn 2010 gyda BA mewn Archaeoleg Ymarferol. Yna gwnaeth MA mewn Rheolaeth Tirwedd ac Archaeoleg Amgylcheddol, wedi'i ariannu gan Gronfa Gymdeithasol yr UE, ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, gan raddio yn 2012. Yn ystod ei yrfa mae ef wedi gweithio ar brosiectau cloddio i Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Mae'n arbenigo mewn defnyddio GIS i ddelweddu a dehongli ffynonellau dogfennol hanesyddol.